# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Marleyfield House**

**Marleyfield House**
**Nant Mawr Road**
**Bwcle**
**CH7 2BL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

3 Chwefror 2023

03/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Marleyfield House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cyngor Sir y Fflint |
| Lleoedd cofrestredig | 64 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Awst 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal y maent yn ei gael ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal sy'n eu cefnogi. Mae'r ddogfennaeth gofal wedi gwella. Mae'n fanwl, yn adlewyrchu'r unigolyn ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt, ac maent yn ymrwymedig i sicrhau ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ganddynt. Mae gan y bobl eu harferion personol eu hunain ac maent yn gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda a chaiff gwaith monitro er mwyn sicrhau ansawdd ei gwblhau yn unol â'r rheoliadau. Mae'r rheolwr yn drefnus ac yn ymatebol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i redeg y gwasanaeth yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Caiff y staff gofal eu recriwtio'n ddiogel, eu hyfforddi a'u goruchwylio. Mae'r staff gofal yn hoffi gweithio yn y gwasanaeth ac maent yn sôn am y tîm rheoli mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd addas sy'n gynnes, yn lân ac yn ddiogel. Mae gan y bobl eu hystafelloedd gwely eu hunain, sydd wedi'u personoli ac sy'n cynnwys eiddo personol.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae'r ddogfennaeth gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys gwybodaeth am ei anghenion unigol a'r ffordd orau o'u diwallu. Mae lleisiau'r bobl yn amlwg ym mhob rhan o'r ddogfennaeth ac mae eu hoff bethau a'u cas bethau yn cael eu nodi'n glir. Caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o gynllunio eu gofal lle y bo'n bosibl. Mae'r gydberthynas rhwng y staff gofal â'r bobl y maent yn gofalu amdanynt yn dda ac maent yn ymdrechu i hyrwyddo annibyniaeth y bobl a'u hannog i wneud eu dewisiadau eu hunain. Mae'r staff gofal yn trin y bobl fel unigolion ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion. Caiff y bobl ddewis sut yr hoffent dreulio eu hamser ac mae mannau personol a phreifatrwydd ar gael iddynt yn eu hystafelloedd gwely eu hunain. Mae lefelau staffio'r gwasanaeth yn dda ac yn sicrhau y caiff anghenion y bobl eu diwallu'n ddi-oed. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ei ymweliadau â'r gwasanaeth fel sy'n ofynnol ac yn ymgysylltu â'r bobl yn ystod yr ymweliadau hynny. Gofynnir am safbwyntiau'r bobl a'r staff gofal ac fe'u defnyddir fel rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Mae polisi diogelu ar waith ac mae pob aelod o'r staff yn mynychu hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin yn ogystal â chyrsiau eraill sy'n berthnasol i'w rolau. Mae'r rheolwr yn deall y gofynion cyfreithiol mewn perthynas â gofalu am bobl agored i niwed ac yn gwneud atgyfeiriadau at gyrff allanol fel tîm diogelu'r Awdurdod Lleol, yn ôl yr angen. Mae'r broses recriwtio staff yn ddiogel a chaiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau cyn i'r cyfnod cyflogaeth ddechrau. Mae system ar waith sy'n sicrhau bod tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi wrth weithio a chânt sesiynau goruchwylio rheolaidd. Caiff meddyginiaeth ei storio'n gywir, ei rhoi yn unol â chyfarwyddiadau'r presgripsiwn a'i harchwilio am unrhyw anghysondebau. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth yn ddiogel.

Mae cynllun yr adeilad yn sicrhau bod digon o le ar gyfer amrywiaeth o anghenion. Gan fod y gwasanaeth wedi'i leoli yn agos at ardal o gefn gwlad, gall y bobl fwynhau'r golygfeydd o'r tu mewn neu wrth fynd y tu allan i'r gerddi sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r darparwr wedi buddsoddi yn yr amgylchedd ac wedi cynyddu capasiti'r cartref. Caiff pob rhan o'r cartref ei chynnal a'i chadw'n dda, a'i haddurno'n chwaethus. Mae gwiriadau diogelwch o'r adeilad yn cael eu cwblhau yn ôl y gofynion cyfreithiol. Mae asesiad risg tân ar waith ac mae'r risgiau amgylcheddol wedi cael eu lleihau gymaint â phosibl. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i ennill y sgôr hylendid bwyd uchaf posibl.

## Gofal a Chymorth

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom gyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â'r cynlluniau personol. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom y gall yr unigolion deimlo'n hyderus bod gan ddarparwr y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol ynghylch sut y darperir gofal iddynt er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r cynlluniau wedi cael eu gwella ac maent belach yn symlach ac felly'n hawdd i'r staff eu dilyn. Mae'r newid hwn yn deillio'n rhannol o'r ffaith bod y darparwr yn gweithio'n unol â'r wobr arian "*Cynnydd i ddarparwyr*"; sef rhaglen achredu sy'n nodi disgwyliadau clir o ran cyflwyno gofal a chymorth wedi'i deilwra at yr unigolyn, wedi'i hwyluso gan awdurdod lleol Sir y Fflint. Dywedodd y staff wrthym fod hyn wedi gwneud gwahaniaeth a "*plans are improving"* o ganlyniad i hynny. Mae'r bobl, yr awdurdod lleoli (os yw'n gymwys) ac unrhyw gynrychiolwyr yn cyfrannu at y cynlluniau personol, ac mae rhai wedi eu llofnodi i ddangos eu bod yn cytuno â nhw. Mae asesiadau risg a gwybodaeth ychwanegol ar gael lle y bo'n ofynnol er mwyn tywys y staff ymhellach. Gwelsom dystiolaeth bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud at weithwyr proffesiynol allanol. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn gywir. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi yn gywir. Mae gan y darparwr ddigon o bolisïau ar waith er mwyn rhoi cyfarwyddyd i'r staff. Gwelsom fod y polisïau hyn wedi'u hysgrifennu mewn ffordd gyson a chan ddefnyddio termau cyson, gan ddefnyddio iaith llawn parch i ddisgrifio'r hyn y cyfeirir ato'n aml fel ymddygiad heriol.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gael dewis a rheolaeth cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl. Mae gan y bobl ymreolaeth lawn dros eu bywydau a chânt eu cefnogi â'u harferion personol, gan ddewis sut yr hoffent dreulio eu hamser a gan wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mynd allan i'r gymuned yn rheolaidd, fel y dymunant, a'u bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a gaiff eu cynnal yn rheolaidd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wrth eu bodd yn byw yn Marleyfield a nododd un person nad yw byw mewn cartref gofal *"never the same as your own home but as close as you can get"* gan ychwanegu ei fod *"like one family*". Mae'r staff yn gwrando ar y bobl a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Gwelsom hyn yn adroddiad diweddaraf yr Unigolyn Cyfrifol ar ansawdd y gofal a nododd, o'r adborth llafar, nad oedd y bobl yn fodlon ar ansawdd y bwyd. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym am y camau a gymerwyd ac ar ddiwrnod yr arolygiad dywedodd y bobl wrthym "*food is so nice; too nice really as I've put on weight": "can't fault it": "excellent choice"* ac "*always clean plates".* Mae system monitro pwysau ar waith. Fodd bynnag, gwnaethom drafod a oedd hyn yn ofynnol lle nad oes unrhyw bryderon o ran maeth. Mae'r mater hwn wedi'i nodi yn un o adroddiadau ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol fel maes a ystyriwyd.

Caiff y bobl eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff gofal yn adnabod yr arwyddion ac yn gwybod sut i fynegi pryderon os byddant yn amau bod llesiant rhywun mewn perygl. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff sy'n cydymffurfio â chanllawiau

cenedlaethol. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym; "*concerns are immediately addressed, the management listen*". Mae'r staff yn cael hyfforddiant sy'n briodol ar gyfer eu rolau. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn "*all nice*" a'u bod yn teimlo'n ddiogel. Dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn "*Feel happy to raise concerns*". Mae'r bobl a'r staff yn meddu ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i godi pryderon.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd addas. Mae digonedd o ystafelloedd ymolchi ac mae'r estyniad diweddar yn cydymffurfio a'r rheoliadau newydd ar gyfer cawodydd a thoiledau. Caiff y cartref ei gynnal a'i gadw'n dda, ei lanhau i safon uchel ac mae digon o le i'r bobl ddewis sut y maent am dreulio eu hamser. Mae thema ystyriol i'r ardd ac mae'n hygyrch. Mae digon o le ynddi ac mae'n cynnwys digon o ddodrefn i'r bobl fwynhau treulio amser yn yr awyr agored fel y dymunant. Mae gan y bobl ystafelloedd gwely unigol a gwelsom eu bod wedi cael eu personoli, eu bod yn gynnes, yn lân ac yn rhoi cyfle i'r bobl gael preifatrwydd a'u mannau personol eu hunain. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd gwely a'u bod wedi cael cymorth i'w personoli.

Gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn byw mewn amgylchedd diogel. Wrth gyrraedd, gwelsom fod y brif fynedfa ar glo, a gofynnwyd i ni am ein manylion adnabod ac i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr cyn i ni gael caniatâd i fynd i mewn. Mae'r cartref yn daclus, caiff cemegion niweidiol cadw'n ddiogel dan glo ac mae'r peryglon wedi'u lleihau gymaint â phosibl. Gwelsom fod y gwasanaeth domestig yn gweithio drwy gydol y dydd, gan gynnal safonau glendid uchel. Mae'r safon hylendid bwyd yn rhagorol, a chafodd y sgôr uchaf posibl, sef 5.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae’r bobl yn cael budd o’r arweinyddiaeth a'r rheolaeth sydd ar waith. Mae Unigolyn Cyfrifol, rheolwr cofrestredig a dau ddirprwy reolwr ynghyd â thîm o staff gofal, y mae rhai ohonynt wedi gweithio i'r gwasanaeth ers sawl blwyddyn, yn gweithio yng nghartref Marleyfield House. Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwyr yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r staff gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ac maent wedi meithrin cydberthnasau da: dywedodd y staff wrthym “*They are approachable*”, “*they listen and have an open-door policy*”. Roedd y bobl yn sôn yn gynnes am y tîm rheoli. Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau ar waith i redeg y gwasanaeth yn hwylus. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol. Caiff y broses o fonitro'r gwaith sicrhau ansawdd ei chynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y bobl yn fodlon ar y gwasanaeth a'u bod bob amser yn cael gwasanaeth o safon. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn ymweld yn rheolaidd, gan fodloni'r gofynion rheoleiddiol. Caiff atgyfeiriadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu gwneud yn briodol er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel mewn achosion lle nad oes ganddynt alluedd. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau sydd ar waith yn cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol.

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sy'n cael eu hyfforddi'n dda a'u cefnogi'n llawn. Edrychwyd ar fatrics hyfforddiant y staff a gwelwyd bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'r rolau a gaiff eu cyflawni ganddynt. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym “*COVID has affected training, but it is improving now”.* Mae'r mwyafrif o'r staff wedi cael sesiynau goruchwylio ffurfiol yn ddiweddar, ac mae'r tîm rheoli wrthi'n ymgymryd â gwaith i sicrhau bod y broses hon yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol, gan fod swyddi gwag yn y tîm rheoli ac ôl-effeithiau COVID-19 hefyd wedi effeithio ar y broses. Mae hyn yn bwysig gan fod sesiynau goruchwylio yn cynnig cyfle i drafod unrhyw faterion neu anghenion ymarfer mewn lleoliad ac i gofnodi'r materion a'r anghenion hynny. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus yn gweithio yn y gwasanaeth a'u bod wedi gweithio yno ers cryn dipyn o amser. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o gofnodion personél y staff a gwelwyd fod bron pob un ohonynt yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Roedd y gwasanaeth yn bwriadu ymdrin â'r bylchau a dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym gan mai adran adnoddau dynol ganolog oedd ar gael i'r gwasanaeth y gall fod oedi weithiau wrth gael gafael ar waith papur. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys geirdaon a thystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau bob amser cyn i unigolion ddechrau gweithio. Mae'r gwiriadau hyn yn bwysig gan eu bod yn pennu addasrwydd unigolyn i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Mae pob aelod o'r staff gofal wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Cynllunio gofal - mae diffyg manylder yn y cynlluniau gofal, yr asesiadau risg a'r cofnodion gofal cysylltiedig ac nid ydynt bob amser yn gywir nac yn gyfredol er mwyn rhoi cymorth i'r staff roi gofal ymatebol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i helpu'r bobl i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 73 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis. Roedd ei ymweliad diwethaf ym mis Gorffennaf 2022 ac nid oes unrhyw gofnodion o ymweliadau blaenorol. | Cyflawnwyd |
| 80 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi cwblhau adroddiad ar yr adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis. Nid yw'r adroddiad a gwblhawyd ar gyfer ymweliad yr Unigolyn Cyfrifol yn ddigon manwl i ddarparu trosolwg llawn o'r gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/03/2023